



TRWYDDED AR GYFER DEFNYDD O DDELWEDDAU O DDEUNYDD ORIEL MÔN (OM) MEWN CYNNYRCH ELECTRONIG (YN CYNNWYS GWEFANNAU) A RHAI NAD YDYNT YN ELECTRONIG

Rhif trwydded:	Rhif anfoneb:
----------------	---------------

Gwneir y Cytundeb canlynol rhwng

Deiliad y Drwydded:	Enw:		
	Cyfeiriad:		
	Enw cyswllt os yn wahanol:		Ffôn:
Oriel Ynys Môn:	Oriol Môn, Rhosmeirch, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TQ		

At bwrpas y Cytundeb hwn bydd gan yr ymadroddion canlynol yr ystyron canlynol:

Y Delweddau: (Teitl a rhif cyfeirnod OM)	Fformat:	Cydraniad:
Y Cynnyrch: (teitl llyfr, cyflwyniad)		
Y Rhediad Cynhyrchu: (unedau/darllediadau)		
Y Tymor: (mewn diwrnodau)		
Y Diriogaeth: (e.e. byd-eang)		
Dyddiad Dechrau:		

Ffi y Drwydded:	Fesul delwedd:	Cyfanswm y Ffi:
	£ + TAW	£ + TAW

Rheolir y drwydded hon gan yr telerau a osodir isod. Ni ellir addasu'r telerau hyn heb ganiatâd ysgrifenedig OM. Ni chaniateir i Ddeiliad y Drwydded ddefnyddio'r Delweddau oni bai a than i Ddeiliad y Drwydded arwyddo a dychwelyd y drwydded hon i OM.

Bydd cydnabyddiaeth y Deiliad y Drwydded i Oriol Môn yn y Cynnyrch wedi'i eirio fel a ganlyn:

--

Trwy hyn yr wyf yn cytuno i delerau'r drwydded fel y nodir isod.

Arwyddwyd dros ac ar ran Oriol Môn:
Dyddiad

Arwyddwyd dros ac ar ran Deiliad y Drwydded:
Dyddiad

Telerau ac amodau safonol:

1: Mae Oriol Môn (OM), wrth ystyried Ffi'r Drwydded yn rhoi trwydded anghyfyngedig yn y Dirioegaeth am y Tymor sy'n caniatáu i Ddeiliad y Drwydded:

(a) gofnodi a chadw dan reolaeth Deiliad y Drwydded y Delwedd(au) a ddisgrifir uchod yn y ffurf a ddarparwyd gan OM; ac

(b) i ddefnyddio'r Delwedd(au) ar gyfer neu yn y Cynnyrch hyd at ddiwedd y Tymor neu ddiwedd y Rhediad Cynhyrchu a nodwyd uchod, pa un bynnag sy'n digwydd gynharaf.

2: Cyflwynir y drwydded hon ar yr amodau canlynol:

(a) ni chaiff Deiliad y Drwydded ddefnyddio'r Delwedd(au) at unrhyw bwrpas ar wahan i'r defnydd a ganiateir dan y Cytundeb hwn;

(b) mae Deiliad y Drwydded yn gyfrifol am glirio hawliau trydydd parti ac yn derbyn atebolrwydd llwyr am unrhyw gwynion neu gamau yn codi o'r defnydd o'r Delwedd(au) yn y Cynnyrch;

(c) ni chaniateir unrhyw ail-ddefnydd neu atgynhyrchu pellach o'r Delwedd(au) ar gyfer rhediadau cynhyrchu yn y dyfodol nac fel arall ar ôl terfyn y Cytundeb hwn heb ganiatâd ysgrifenedig OM a thaliad ffioedd ychwanegol o flaen llaw;

(d) ble mae OM wedi darparu y Ddelwedd ar ffurf ac, os yn briodol, at safon cydraniad a gytunwyd rhwng OM a Deiliad y Drwydded, neu lle mae Deiliad y Drwydded wedi creu Delwedd(au) gyda chaniatâd OM, ni fydd Deiliad y Drwydded yn defnyddio'r Delwedd(au) at unrhyw bwrpas heblaw ar gyfer neu yn y Cynnyrch.

(e) bydd pob copi o'r Cynnyrch yn cynnwys nodyn yn cydnabod bod y Delweddau wedi eu darparu 'drwy ganiatâd Oriol Môn', os nad oes geiriad arall wedi'i gytuno rhwng OM a Deiliaid y Drwydded;

(f) (i) lle nad yw'r Cynnyrch yn electronig, mae OM yn cadw'r hawl i hawlio copi di-dâl o'r Cynnyrch y mae'r Delwedd(au) yn ymddangos ynddo, a bydd gan OM hawl i roi mynediad iddo i'w defnyddwyr; (ii) ble mae CD-Rom neu wrthrych ffisegol arall yn rhan o'r Cynnyrch, rhoir un gopi yn ddi-dâl i OM o fewn chwe deg diwrnod i gyhoeddi, a bydd gan OM hawl i roi mynediad iddynt i'w defnyddwyr; (iii) ble mae'r Cynnyrch yn gynnyrch ar-lein, rhoir mynediad di-dâl i bersonau sy'n cael mynediad i'r rhyngrwyd ar derfynellau ar safle OM, drwy ba bynnag ddull y mae'n ei ystyried yn addas;

(g) o fewn mis i gwblhau'r Rhediad Cynhyrchu, neu ar derfyn y Cytundeb hwn am ba reswm bynnag, rhaid i Ddeiliad y Drwydded: (i) roi'r gorau i bob defnydd o'r Delwedd(au); a (ii) dileu o gronfa ddata Deiliad y Drwydded pob copi neu gofnod o'r Delwedd(au) a wnaed o dan y drwydded, oni bai bod Rhediad Cynhyrchu pellach wedi ei ganiatáu a bod y ffioedd ychwanegol perthnasol wedi eu talu.

(h) ni chaniateir unrhyw addasu, newid neu drin sy'n gwyrddio neu'n newid Delwedd(au) yn sylweddol heb ganiatâd ysgrifenedig OM o flaen llaw, ond caniateir trin er mwyn cynyddu eglurdeb delwedd;

(i) ni fydd Deiliad y Drwydded yn defnyddio'r Delwedd(au) mewn unrhyw ffordd a fydd yn niweidiol i enw da awdur(on) o'r gweithiau a gynrychiolir yn y Delwedd(au) neu OM neu mewn unrhyw ffordd y gellir ei ystyried yn ddefnydd difriol;

(j) mae'r drwydded hon yn bersonol i Ddeiliad y Drwydded ac ni ellir ei drosglwyddo neu is-drwyddedu heb ganiatâd OM o flaen llaw.

(k) bydd Deiliad y Drwydded yn sicrhau bod trydydd partiön gan gynnwys dylunwyr ac argraffwyr yn ymrwymo i delerau'r drwydded hon; a

(l) ni fydd Deiliad y Drwydded yn caniatáu i drydydd partiön ddefnyddio neu atgynhyrchu'r Delwedd(au) a bydd yn rhoi gwybod i OM am unrhyw gamddefnydd o unrhyw un o'r Delwedd(au) cyn gynted ag y daw yn ymwybodol ohono.

3: Talu

Wrth dderbyn y drwydded hon, bydd Deiliad y Drwydded yn talu Ffi'r Drwydded i OM. Mae Ffi'r Drwydded yn berthnasol i'r drwydded hon yn unig. Codir TAW ar y gyfradd gyfredol. Bydd pob ffi yn daladwy unwaith y derbynir anfoneb. Nid yw Ffi'r Drwydded yn cynnwys ffi reprograffeg a allai gael ei hanfonebu yn ychwanegol gan OM.

4: Terfynu

Bydd gan OM hawl ar unwaith i derfynu'r Cytundeb hwn drwy roi rhybudd ysgrifenedig i Ddeiliaid y Drwydded os yw Deiliad y Drwydded yn cyflawni tor-cytundeb sylweddol o unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn ac, yn achos tor-cytundeb y bydd modd ei gywiro, yn methu ei gywiro o fewn tri deg diwrnod ar ôl derbyn rhybudd ysgrifenedig yn rhoi manylion y tor-cytundeb a'r cais i'w gywiro.

5: Cytundeb yn ei gyfanrwydd

Mae'r Cytundeb hwn yn ffurfio'r cytundeb cyfan rhwng y partïon ac yn disodli pob gohebiaeth a chytundeb blaenorol gan gynnwys unrhyw a phob sylw cyn-cytundebol (ac eithrio sylwadau twyllodrus) rhwng y partïon mewn perthynas â thestun y Cytundeb hwn.

6: Force Majeure

Ni fydd y naill barti na'r llall yn atebol nac yn cael ei ystyried yn ddiffygiol am unrhyw fethiant llwyr neu rannol i berfformio neu gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn o ganlyniad i force majeure, sef, digwyddiadau neu amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth resymol y parti, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, weithredoedd Duw, gweithredoedd o awdurdod sifil neu filwrol, rhyfel, tân, ffrwydrad, llifogydd, difrod, embargo, terfysg, cythrwfl sifil, streiciau a chloi allan.

7: Hysbysiadau

Bydd unrhyw hysbysiadau y gall y naill barti fod yn ofynnol i roi i'r llall yn cael ei ystyried yn ddigonol os yw'n ysgrifenedig ac wedi ei anfon gyda phost dosbarth cyntaf, i gyfeiriad y parti hwnnw a nodir yma neu i gyfeiriad arall y gellir ei hysbysu yn ysgrifenedig gan y parti at y diben hwn. Ystyrir hysbysiadau yn weithredol ddau ddiwrnod busnes ar ôl y dyddiad postio.

8: Toradwyedd

Os ac i'r graddau y bydd unrhyw un o delerau neu ddarpariaethau'r Cytundeb hwn yn cael ei benderfynu yn annilys, anghyfreithlon neu'n anorfodadwy, yna ni fydd y tymor neu ddarpariaeth i'r graddau hynny yn cael ei ystyried yn rhan o'r Cytundeb hwn a bydd felly yn cael ei ddileu o delerau a darpariaethau'r Cytundeb hwn a fydd yn parhau i fod yn ddilys, yn bodoli ac yn orfodadwy rhwng y partïon i'r graddau mwyaf posibl sy'n gyfreithlon.

9: Awdurdodaeth a'r Gyfraith sy'n Llywodraethu

Llywodraethir y drwydded hon gan gyfreithiau Lloegr a Chymru a bydd unrhyw anghydfod sy'n codi mewn unrhyw ffordd allan o neu sy'n effeithio ar y Cytundeb hwn yn dod o dan awdurdodaeth Llysoedd Lloegr a Chymru yn unig, i'r hyn y mae'r partïon yn cytuno i ymostwng.